Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Rebecca Evans AC
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd, CF99 1NA

29 Tachwedd 2016

Annwyl Weinidog,

Dyma ysgrifennu yn dilyn cyhoeddi fy Adolygiad o Gartrefi Gofal, 'Lle i'w Alw'n Gartref', sef fy adolygiad statudol o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014.

Fel y gwyddoch, dywedais y byddwn yn gwneud gwaith dilynol i asesu i ba raddau y mae'r camau gweithredu wedi sicrhau'r newid angenrheidiol. Dyma wybodaeth felly am y modd rwy'n bwriadu mynd ynglŷn â hyn.

Rwyf wedi ymwneud yn gyson â llawer o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, felly rwy'n cydnabod bod hwn yn gyfnod o newid sylweddol i'r sector gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r materion yr oeddwn eisiau eu gweld yn cael eu trin o ganlyniad i fy Adolygiad wedi cael, neu byddant yn cael, eu datblygu drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ogystal â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau cysylltiedig. Er hynny, mae ambell faes lle nad oedd angen deddfwriaeth i sicrhau newid. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, rwyf o'r farn fod digon o amser wedi mynd heibio i weld tystiolaeth bendant o'r camau gweithredu, ac o'u heffaith, mewn amryw o'r meysydd yma.

Rwyf felly wedi penderfynu canolbwyntio fy adolygiad dilynol ar y meysydd a ganlyn; mae gan bob un o'r rhain gysylltiad uniongyrchol â'm Gofynion ar gyfer Gweithredu

- **I ba raddau y mae cymorth ymataliaeth arbenigol ar gael i gartrefi gofal**.

Iechyd ar Waith
Cyfraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae hyn yn cyfeirio at y camau yr oeddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru eu cymryd mewn perthynas â chanllawiau cenedlaethol clir ar ddefnyddio cymhorthion ymataliaeth a sicrhau urddas i bobl hŷn. Byddaf hefyd yn gofyn i Fyrddau Iechyd ddarparu enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd ganddynt hwythau, naill ai yn unol â'r canllawiau yma neu yn unol â'u hymrwymiad eu hunain i arferion da. (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 1.3)

- **I ba raddau y mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol, a gofal amlddisgyblaethol pan fo hynny'n briodol, sy'n darparu cymorth adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.**

Mae hyn yn cyfeirio at y camau yr oeddwn yn disgwyl i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol fod wedi eu cymryd mewn partneriaeth i sicrhau bod pobl hŷn yn cael cymorth llawn yn dilyn cyfnod sylweddol o afiechyd er mwyn eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl a chael cystal ansawdd bywyd â phosibl. (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 2.2)

- **Atal a rheoli codymau, gan gynnwys dulliau monitro ac adrodd cenedlaethol mewn perthynas â chodymau mewn cartrefi gofal.**

Mae hyn yn cyfeirio at y camau yr oeddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru eu cymryd mewn perthynas â rhaglen genedlaethol i atal codymau, a gweithredu'r rhaglen honno mewn cartrefi gofal, yn ogystal â'r graddau y mae lefel y codymau'n cael ei monitro a'i hadrodd ar lefel genedlaethol a lleol. (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 2.3 a 6.8)

- **Yr hyfforddiant sydd ar gael ac yn cael ei dilyn gan holl staff a rheolwyr cartrefi gofal mewn perthynas â deall a gofalu am bobl â dementia, gan gynnwys i ba raddau y mae hyn yn rhan o oruchwyliaeth barhaus a'r gwaith o asesu sgiliau.**

Mae hyn yn cyfeirio at y camau yr oeddwn yn disgwyl i Awdurdodau Lleol, fel comisiynwyr gofal, fod wedi eu cymryd i sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl sy'n byw â dementia. (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 3.2)

- **Cynnal adolygiadau o feddyginiaethau a'r modd y defnyddir meddyginiaethau gwrth-seicotig mewn cartrefi gofal.**

Mae hyn yn cyfeirio at y camau yr oeddwn yn disgwyl i Fyrddau Iechyd fod wedi eu cymryd i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y feddyginiaeth briodol, gan gynnwys sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael cyffuriau gwrth-seicotig yn amhriodol neu yn lle cymorth anfferyllol. (Gofyniad ar gyfer Cam Gweithredu 3.5 a 4.4)

- **I ba raddau y mae comisiynwyr, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn deall ansawdd bywyd o ddydd i ddydd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, a'r ffordd y defnyddir y ddealltwriaeth hon i hybu gwelliant parhaus.**

Mae hyn yn cyfeirio at y camau yr oeddwn yn eu disgwyl i sicrhau bod barn pobl hŷn am eu gofal o ddydd i ddydd ac ansawdd eu bywyd yn cael ei defnyddio i hybu gwelliant parhaus, yn ogystal ag i ba raddau y mae pobl hŷn yn teimlo bod ganddynt lais a rheolaeth dros eu bywydau. (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 6.2)

- **I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod dull integredig o archwilio cartrefi nyrsio rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gyda ffocws penodol ar asesu ac adrodd ynghylch gofal clinigol mewn cartrefi gofal.**

Mae hyn yn cyfeirio at sicrhau bod pobl hŷn yn cael mynediad yn gyson at ansawdd bywyd da a gofal clinigol o ansawdd uchel. (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 6.4, 6.5 a 6.6)

- **I ba raddau y mae Awdurdodau Lleol, fel comisiynwyr gofal, wedi cymryd camau i annog y defnydd o fentrau 'cyfeillio' mewn cartrefi gofal, gan gynnwys sicrhau bod pobl hŷn yn cael mynediad at gymorth sy'n ymwneud â ffydd ac at gymunedau diwylliannol penodol.**

Mae hyn yn cyfeirio at y graddau y mae pobl hŷn yn cael cefnogaeth i gynnal y cyfeillion sydd ganddynt ac yn cael cyswllt cymdeithasol ystyrlon y tu mewn i'r cartref gofal a'r tu allan, a'r graddau y mae cartrefi gofal yn rhan o'r gymuned yn ehangach. (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 3.3)

- **I ba raddau y mae rhagolygon cadarn i gynllunio'r gweithlu wedi cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gofynion o ran staff nyrsio yn y sector gofal preswyl a gofal nyrsio yn y dyfodol. Hefyd, i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd wedi gweithio gyda'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu fel rhan allweddol o lwybr gyrfa nyrsio.**

Mae hyn yn cyfeirio at yr angen i flaengynllunio'n glir, i recriwtio â chymhellion, ac i sicrhau cymorth gyrfaol er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o nyrsys arbenigol yn cael y cymorth angenrheidiol i ddarparu gofal nyrsio o ansawdd uchel. (Gofynion ar gyfer Gweithredu 7.2 a 7.3)

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto yn Ionawr 2017 i ofyn am yr wybodaeth y bydd ei hangen arnaf i allu asesu'r cynnydd a wnaed gan eich sefydliad mewn perthynas â'm Gofynion ar gyfer Gweithredu. Rwy'n bwriadu defnyddio pro fforma i sicrhau dull cyson ac er mwyn bod mor glir â phosibl am yr ymatebion rwyf eu heisiau.

Fe allwn gymryd rhagor o dystiolaeth gan gyrff cyhoeddus lle rwyf o'r farn fod hynny'n briodol, ac yn dibynnu pa wybodaeth a ddarperir, gallwn ofyn am gael cwrdd â chi i drafod a deall yn well pa gamau gweithredu a gymerwyd gennych.

Rwy'n disgwyl y byddwch yn gallu rhoi tystiolaeth fod cynnydd sylweddol wedi digwydd mewn perthynas â'r camau gweithredu, ac yn gallu dangos pa wahaniaeth a wnaethoch i fywydau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi fy nghanfyddiadau fis Tachwedd 2017 fan bellaf. Mae croeso ichi gysylltu â mi yn uniongyrchol os oes gennych unrhyw ymholiadau am y mater hwn.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru